**Bitesize**

# Eddie Ladd – Llywelyn

**Mae'r testun hwn o** http://www.bbc.co.uk/education/guides/zp2pn39/revision/2

**Eddie Ladd:** So ma'r darn ma reit, o'dd hwn ddim yn bod cyn y testun, so sgwennes i'r testun a ma fe ambutu 1277 pan o'dd Llywelyn yn gorfod ildio i Edward y Cynta. So, ma hwn yn un o siape mowr Llywelyn, reit. Braidd yn ansefydlog ond yn gryf fel symudiad. Rhaid i chi fod yn eofn i neud y symudiad 'ma achos elech chi simsanu o'r un ochor i'r llall.

Ond, pan o'dd e'n gorfod ildio i Llywelyn, achos nath e gipio'i wejen e a gorffodd e briodi o'i flân e yn Caerwrangon. So 'na beth sy'n digwydd wedyn y'ch chi'n gweud - ma fe'n mynd o ffurfio mewn sawl plân achos 'na beth yw hwn, ma fe'n mynd i symud yn llorweddol, so chi'n ddiymadferth a chi jyst yn troi a troi a troi. Ma pob math o siape 'da ni yn ystod y darn ma ond ma nhw gyd i neud â treiglo, dim cryfder yn y corff.

Ond beth o'n i'n gorffod neud gyda'r gŵr camera o'dd, bysen i'n neud er enghraifft y siâp 'ma fel 'na a wedyn troi rownd a byse fe'n gweud, "Ie ie ie ie ie ie, gwna 'na" neu "Dere atof i yn hytrach 'na mynd mor bell achos dim ond dy ben di dwi'n gallu gweld. Dwi isie gweld dy goes di'n dod at y camera" so bysen i'n neud, a troi tuag at y camera tuag ato fe achos bydden i'n dychmygu bod e fan 'na. O'dd e'n llunio'r goreograffi ac o'n i'n llunio'r goreograffi ar yr un pryd, ond o'dd e'n llunio fe fel bod e'n ffito beth o'dd y camera'n gofyn amdano.


© Copyright 2014